**Dyddiad:** Dydd Mercher 22 Tachwedd 2000
**Amser:** 9.00am i 12.25pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## CYFARFOD Y PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH - 22 TACHWEDD 2000

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS FATERION GWLEDIG

### YMWELIAD Â BRWSEL

1. Dydd Llun 20 Tachwedd, byddaf yn bresennol yng nghyfarfod Cyngor Amaethyddiaeth yr UE ym Mrwsel. Fel rhan o'r ymweliad, byddaf hefyd yn bresennol mewn cynhadledd bwysig ar ddiwygio'r system gig oen Ewropeaidd. Bydd yr holl wledydd sy'n rhan o'r system yn cael eu cynrychioli yno, a bydd swyddogion y Comisiwn hefyd yn bresennol. Dyma gyfle defnyddiol i ddwyn pwysau ar y Comisiwn cyn iddo gyhoeddi'i gynigion, ac ni ddisgwylir iddo wneud hynny tan y Flwyddyn Newydd. Mae'r diwydiant defaid yn hollbwysig i ni, ac felly mae'n bwysig sicrhau bod gennym gynrychiolaeth o'r Cynulliad Cenedlaethol i ddylanwadu ar y rhai sy'n llunio polisïau. Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar lafar i'r Pwyllgor ynglyn â'r ymweliad, ar 22 Tachwedd.

### GRWP DYFODOL FFERMIO

2. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf buddiol o'r Grwp ar 13 Tachwedd. Nid oedd unrhyw bapurau ffurfiol, a derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau anffurfiol gan swyddogion a sefydliadau partneriaeth ar agweddau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y datblygiadau cynaliadwy ym maes amaethyddiaeth. Cafwyd cytundeb cyffredinol bod yn rhaid i amaethyddiaeth yng Nghymru addasu, a mynegwyd ystod o safbwyntiau ar y mathau o newidiadau sydd eu hangen. Mae'r realaeth ymarferol sy'n dod i'r amlwg yn sylfaen dda i ddatblygu strategaeth eglur ar gyfer dyfodol ffermio. Rydym ar drothwy cyfnod hynod o brysur, gan fod y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 7 Rhagfyr.

### MODWLEIDDIO

3. Mae'r is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r trefniadau modwleiddio wedi cael ei chymeradwyo

gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, a bydd yn mynd gerbron y Cyfarfod Llawn ddydd Iau 7 Rhagfyr. Gallaf gadarnhau ein bod wedi llwyddo i gael arian cyfatebol oddi wrth y Trysorlys fel rhan o setliad yr Adolygiad o Wariant yn yr haf. Mae'r cronfeydd cyfunol hyn yn hollbwysig er mwyn i'r Cynulliad Cenedlaethol roi'r mesurau a gynhwysir yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru ar waith.

**TIR MYNYDD**

4. Erbyn hyn, mae ffermwyr yn Ardaloedd Llai Ffafriol Cymru a gyflwynodd Gais am Gymorth Arwynebedd IACS 2000 wedi derbyn nodiadau esboniadol a ffurflen gais atodol ar gyfer y Cynllun newydd. Ffermwyr Cymru oedd y cyntaf yn y Deyrnas Unedig i dderbyn y dogfennau esboniadol, sy'n arwydd o'n hymrwymiad i wella'r gwasanaeth a roddir i ffermwyr. Yn ychwanegol, trefnwyd cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ar y cyd ag undebau'r ffermwyr er mwyn rhoi cyfle i swyddogion Swyddfeydd Rhanbarthol yr Adran Amaethyddiaeth roi mwy o wybodaeth am y cynllun i ffermwyr. Yr oedd yn galonogol fod cynifer yn bresennol yn y cyfarfodydd, a chafwyd adborth cadarnhaol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Ffurflen Gais Atodol Tir Mynydd yw 6 Rhagfyr 2000. Bydd y taliadau'n cael eu gwneud ym mis Mawrth/Ebrill 2001.

**PROFION GM YN SIR Y FFLINT**

5. Yn y cyfarfod diwethaf, gofynnwyd imi am yr arfarniadau GM ar raddfa ffermydd yn Sir y Fflint. O ganlyniad i'r llifogydd, deallaf na fu modd i'r ffermwr fynd at y cae lle tyfir y cnwd. Felly, ni lwyddwyd i'w ddifa. Mae swyddogion y Cynulliad yn monitro'r sefyllfa, a byddant yn fy hysbysu o unrhyw ddatblygiadau. Fel y byddwch yn ymwybodol, yr wyf wedi cytuno i ysgrifennu at Tom Middlehurst a Janet Ryder i'w hysbysu unwaith y bydd y cnwd wedi'i ddinistrio. Byddaf yn anfon copi o'r llythyr at aelodau'r Pwyllgor.